Yr Eglwys

Darllen: Philipiaid 3:12

Mae troi at lythyrau Paul yn y Testament Newydd bob amser yn calonogi ac yn gyrru rhywun ymlaen. Yn yr adnod hon, mae'r cenhadwr, yr athro, y diwinydd a'r trefnydd yn dweud mai ar y ffordd i ddeall ac amgyffred aruthredd yr Efengyl yr oedd yntau, 'Nid fy mod eisoes wedi cael hyn, neu fy mod eisoes yn berffaith, ond yr wyf yn prysuro ymlaen' (Philipiaid 3:12). Felly, boed geiriau Paul yn sbardun i ni fel aelodau'r Eglwys. Nid cael ein galw i dasg bendant, sefydlog ydyn ni, lle mae popeth wedi'i ddiffinio'n ofalus a threfnus. Wrth ddod yn aelod o eglwys, rydyn ni'n cael ein galw i anturiaeth newydd, i bosibiliadau newydd. Galwad i gychwyn ar bererindod yw bod yn aelod o eglwys; 'ond yr wyf yn prysuro ymlaen'. Yr hyn sy'n fy nychryn ar brydiau ydi'r bobl sy'n sicr o'r daith; maen nhw'n gwybod eu bod ar y llwybr cywir, ac maen nhw'n mynd i gerdded y llwybr hwnnw doed a ddelo. Ond i ni feidrolion, mae'r gwynt yn chwythu lle y mynno.

Ymateb y rhai sy'n sicr o'r daith yw dweud fod yr Ysbryd yn eu cynnal, ond dydi derbyn yr Ysbryd ddim yn cadarnhau cynllun sydd wedi'i weithio allan a'i baratoi ymlaen llaw. Mae'r Ysbryd yn gwmni i ni ar y daith anhysbys. Mae'r Ysbryd yn ein gwahodd i gerdded llwybr anturiaeth greadigol, a bydd yn ein cryfhau a'n cadarnhau ar y daith. Y mae pob aelod o'r Eglwys yn berson unigryw a chanddo dalentau arbennig, ac felly mae'n barod i arbrofi o'r newydd yng ngwaith y deyrnas. Mae'r unigolyn hwn yn gymysgedd o brofiadau a nodweddion arbennig – cefndir, hyfforddiant, gwaith bob dydd. A dyma'r elfennau y dylid eu meithrin a'u datblygu ym mywyd amrywiol yr eglwys. Nid tasg yr eglwys yw cuddio'r elfennau hyn gan dybio nad ydynt yn bwysig i waith a chenhadaeth yr eglwys. Fe ddylai yn hytrach eu meithrin a'u datblygu, 'er mwyn meddiannu'r peth hwnnw y cefais innau er ei fwyn fy meddiannu gan Grist Iesu' (12). Mae dyfodol yr eglwys leol yn dibynnu pa fath o berson ydych chwi, pa mor dda a gweithgar ydych chi fel aelod, a pha mor

effeithiol ydych chi'n gallu gweithio'n greadigol gydag eraill. Galwad i waith ydi galwad Duw, galwad i dorchi'n llewys a bwrw iddi. Yn rhy aml o lawer, rydyn ni'n disgwyl i bethau o'r tu allan ddigwydd. Soniwn byth a hefyd am ddiwygiad – Duw yn ymyrryd. Petaem ni'n gweithio'n galetach, mi fyddai adnewyddiad yn digwydd a ninnau'n flaenllaw yn y broses.

Y mae un peth arall sy'n werth ei grybwyll (a neges yw hon i'r arweinyddion). Mae'n rhaid iddynt hwythau, os ydynt am weld eglwys ddeinamig yn hytrach na sefydliad sy'n edrych yn ôl bob amser, fod yn barod i gael eu dysgu a'u hyfforddi, ac mae'n rhaid iddynt fod yn wrandawyr hefyd. Ac mae'n rhaid i'r arweinyddion sylweddoli mai partneriaid ydynt yn y gwaith. Pobl y ffordd ydyn nhw, ac ar y ffordd y mae darganfod beth yw ewyllys Duw ar gyfer ei eglwys.

Myfyrdod pellach:

Ydi'n heglwysi ni'n statig?

Tybed oes angen gweinidogion ac offeiriaid heddiw? Tybed ydyn nhw'n gwneud mwy o ddrwg nag o les?